OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2012 Rhif 2572 (Cy. 283)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

# Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Sylfaenol) (Diwygiadau sy'n Ymwneud ag Unedau o Weithgaredd Deintyddol) (Cymru) 2012

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006 ("Rheoliadau GDS") a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006 ("Rheoliadau PDS").

Mae rheoliadau 2 a 3 yn ôl eu trefn yn diwygio paragraff 2 o Atodlen 2 i Reoliadau GDS a pharagraff 2 o Atodlen 2 i Reoliadau PDS drwy ddileu'r broses o ddyroddi presgripsiwn o'r math ar gwrs o driniaeth sy'n esempt rhag ffi y darperir unedau o weithgaredd deintyddol ar ei gyfer.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol gwneud asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r buddiannau sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 2572 (Cy. 283)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Sylfaenol) (Diwygiadau sy'n Ymwneud ag Unedau o Weithgaredd Deintyddol) (Cymru) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Hydref 2012* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *11 Hydref 2012* |
| *Yn dod i rym* | *1 Tachwedd 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 61, 66 a 203(9) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Sylfaenol) (Diwygiadau sy'n Ymwneud ag Unedau o Weithgaredd Deintyddol) (Cymru) 2012, deuant i rym ar 1 Tachwedd 2012 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006**

**2.** Yn Atodlen 2 (darparu gwasanaethau: unedau o weithgaredd deintyddol ac unedau o weithgaredd orthodontig) i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol

(**1**) 2006 p.42.

Cyffredinol) (Cymru) 2006(**1**), ym mharagraff 2 (unedau o weithgaredd deintyddol), yn Nhabl B (unedau o weithgaredd deintyddol a ddarperir o dan y contract mewn cysylltiad â chyrsiau o driniaeth sy'n esempt rhag ffi)—

(a) yn y golofn gyntaf (math ar gwrs o driniaeth sy'n esempt rhag ffi), hepgorer "Issue of a prescription"; a

(b) yn y cofnod cyfatebol yn yr ail golofn (unedau o weithgaredd deintyddol a ddarperir), hepgorer "0.75".

**Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006**

**3.** Yn Atodlen 2 (darparu gwasanaethau: unedau o weithgaredd deintyddol ac unedau o weithgaredd orthodontig) i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006(**2**), ym mharagraff 2 (unedau o weithgaredd deintyddol), yn Nhabl B (unedau o weithgaredd deintyddol a ddarperir o dan y cytundeb mewn cysylltiad â chyrsiau o driniaeth sy'n esempt rhag ffi)—

(a) yn y golofn gyntaf (math ar gwrs o driniaeth sy'n esempt rhag ffi), hepgorer "Issue of a prescription"; a

(b) yn y cofnod cyfatebol yn yr ail golofn (unedau o weithgaredd deintyddol a ddarperir), hepgorer "0.75".

*Lesley Griffiths*

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru

9 Hydref 2012

(**1**) O.S. 2006/490 (Cy.59) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2009/456 (Cy.47).

(**2**) O.S. 2006/489 (Cy.58) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2009/456 (Cy.47).